**Dr Chris Llewelyn**
Prif Weithredwr / Chief Executive

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Welsh Local Government Association**

**Un Rhodfa'r Gamlas**
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF
**Ffôn:** 02920 468680

**One Canal Parade**
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5BF
**Tel:** 02920 468680

Ein Cyf / Our Ref:
Dyddiad / Date: 29/5/2025
Gofynnwch am / Please ask for: Andrew Morgan
Llinell uniongyrchol / Direct line:
Ebost / Email: leader@wlga.gov.uk

Y Cynghorydd Beca Roberts
Cadeirydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd

**Trwy e-bost**

Annwyl Gynghorydd Roberts

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Ebrill yn rhoi gwybod i mi fod Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu cynnig yn ddiweddar sy'n ymwneud â galw ar Lywodraeth y DU i drosglwyddo awdurdodaeth cyfiawnder i'r Senedd a cheisio cefnogaeth Cynghorau Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae CLlLC wedi rhoi ystyriaeth i ddatganoli agweddau ar y system gyfiawnder ar sawl achlysur ac mae wedi ymateb i'r amryw Gomisiynau sydd wedi rhoi ystyriaeth i faterion cysylltiedig dros nifer o flynyddoedd.  Mae'r rhain yn cynnwys Comisiwn Silk, Comisiwn Thomas, ac yn fwy diweddar, y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Wrth gyfrannu tystiolaeth i'r Comisiynau hyn, mae CLlLC wedi dweud ei bod yn cefnogi datganoli pwerau a swyddogaethau ymhellach gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau prawf ac agweddau penodol ar blismona, ond gan gydnabod bod rhai agweddau o amddiffyniad a ddarperir gan yr heddlu a'r gwasanaethau diogelwch, fel atal terfysgaeth, y mae'n well iddynt gael eu rheoli ar lefel Cymru a Lloegr. Mae CLlLC hefyd wedi cyfleu'n gryf bod rhaid i unrhyw ddatganoli swyddogaethau pellach ddod gyda'r lefelau angenrheidiol o gyllid er mwyn sicrhau nad oes effaith negyddol ar ddarparu gwasanaethau.

Wrth rannu ein barn am y materion a osodwyd gan y Comisiynau uchod, nododd CLlLC y byddai datganoli agweddau ar y system gyfiawnder yn arwain at aliniad gwell ar gyfer agendâu a blaenoriaethau, yn osgoi dryswch a achosir gan feysydd polisi sy'n gorgyffwrdd meysydd datganoledig a meysydd heb eu datganoli, ac yn arwain at atebolrwydd mwy clir i ddinasyddion.  Rwy'n amgáu copi o gyflwyniad CLlLC i Gomisiwn Thomas, sy'n nodi ein

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

barn, bryd hynny, mewn mwy o fanylder.

Nid oes gan CLILC unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ailystyried datganoli’r system gyfiawnder, ond byddwn yn gobeithio bod ein barn flaenorol a’r dystiolaeth i Gomisiwn Thomas yn adlewyrchu cefnogaeth y Gymdeithas dros ddatganoli swyddogaethau ymhellach, pe byddent yn arwain at ganlyniadau gwell i ddinasyddion, ac yn amodol ar drosglwyddo cyllid llawn er mwyn darparu’r gwasanaeth yn llwyddiannus.  Mae swyddogion CLILC yn ymwneud â nifer o drafodaethau parhaus am faterion sy’n ymwneud â gwella darpariaeth y system gyfiawnder troseddol yng Nghymru gan gynnwys y potensial i ddatganoli mwy o swyddogaethau cysylltiedig, er enghraifft, ymgysylltu â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar brosiect a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i edrych ar y potensial ar gyfer datganoli gwasanaethau prawf; a gyda chydweithwyr plismona o ran y Papur Gwyn sydd i ddod gan Lywodraeth y DU am ddiwygio plismona.

Yn gywir



Y Cyng. Andrew Morgan OBE
**Arweinydd, WLGA**

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio’r naill iaith na’r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.